Llwybrau Dysgu Cymraeg

Cyngor Caerdydd Academi | Cardiff Council Academy

Mae nifer o opsiynau i staff Cyngor Caerdydd sydd eisiau dysgu Cymraeg. Mae'r cyrsiau wedi'u rhannu'n bedwar llwybr dysgu yn ôl deilliannau dysgu a math o gwrs.

Gweithio tuag at Lefel 1 *Dechrau'r daith a dysgu'r sgiliau sylfaenol*	**O Ddechreuwr i Ddwyieithog** *Datblygu dwyieithrwydd i ddechreuwyr a staff nad ydynt yn rhugl*	**Cymraeg Hyfedr / Proffesiynol** *Paratoi i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus yng nghyd-destun y gwaith*	**Cymraeg Gwaith** *Cyfleoedd Dysgu hyblyg ychwanegol gan y sefydliad Cymraeg Gwaith*
Modiwl Cyflwyniad i'r Gymraeg *(yn yr arfaeth)*	Mynediad (Cymraeg Lefel 1)	Uwch (Cymraeg Lefel 4)	Cwrs Croeso Ar-lein 10 Awr
Cwrs Blasu Cymraeg Hanner Diwrnod	Sylfaen (Cymraeg Lefel 2)	Hyfedredd (Cymraeg Lefel 5)	Cwrs Croeso Nôl Ar-lein Deg Awr
Cwrs Cymraeg Deuddydd i Staff sy'n Wynebu Cwsmeriaid	Canolradd (Cymraeg Lefel 3)		Cwrs Gwella'ch Cymraeg Ar-lein 10 Awr
Cyflwyniad I ddechreuwyr/dysgwyr is na lefel 1 y mae'r llwybr yma. Gellir cwblhau un cwrs yn unig neu hyd at dri. Dim trefn benodol; mae'r cyrsiau yn cyd-fynd â'i gilydd. *Modiwl ar gael o Awst 2021.* *Caiff cyrsiau eu hysbysebu yn rheolaidd*	**Cyflwyniad** I ddechreuwyr, dysgwyr is na lefel 3, a siaradwyr Cymraeg di-hyder y mae'r llwybr yma. Mae modd cwblhau un lefel neu hyd at dri. Rhaid cwblhau'r cyrsiau yn y drefn iawn. I staff sydd â rhywfaint o Gymraeg, weithiau mae'n bosibl ymuno ar lefel 2 neu 3.	**Cyflwyniad** I ddysgwyr lefel Canolradd/Uwch a siaradwyr Cymraeg nad ydyn nhw'n hyderus i ddefnyddio eu Cymraeg, yn enwedig yn y gwaith, y mae'r llwybr yma. Caiff dysgwyr gwblhau un neu ddau o'r cyrsiau gan ddibynnu ar eu hanghenion.	**Cyflwyniad** Mae'r llwybr yma yn cynnig opsiynau hyblyg ychwanegol i gyfoethogi dysgu ymhellach. Amryw lefelau. Mae'r cyrsiau Croeso yn cyd-fynd yn dda gyda'r llwybr Gweithio tuag at Lefel 1. O dro i dro bydd modd cynnig cyfleoedd dysgu ychwanegol drwy

dros y flwyddyn ar Wybodaeth i Staff ac mae modd gweld cyrsiau a chadw lle ar Galendr Hyfforddiant DigiGOV hefyd.	*Mae cyrsiau yn dechrau ym mis Medi ac maen nhw'n cael eu hysbysebu yn bell ymlaen llaw drwy sianeli Gwybodaeth i Staff. Mae modd gweld hyfforddiant a chadw lle ar Galendr Hyfforddiant DigiGOV.*	*Mae cyrsiau yn dechrau ym mis Medi ac maen nhw'n cael eu hysbysebu yn bell ymlaen llaw drwy sianeli Gwybodaeth i Staff. Mae modd gweld hyfforddiant a chadw lle ar Galendr Hyfforddiant DigiGOV.*	Gymraeg Gwaith, er enghraifft Mynediad Rhan 1 Ar-lein. *Mae'r cyrsiau uchod yn ddolenni a gallwch chi ddechrau arni'n syth. Pan fydd cyrsiau Cymraeg Gwaith eraill yn cael eu cynnig, byddan nhw'n cael eu hysbysebu ar Wybodaeth i Staff.*
Deilliannau Dealltwriaeth o ynganu ac ymadroddion bob dydd defnyddiol. Bydd sgyrsiau byr a syml iawn yn bosibl ar gwblhau'r llwybr.	**Deilliannau** Mynediad – cymryd a rhannu gwybodaeth sylfaenol a chael sgyrsiau cychwynnol amrywiol. Sylfaen - ymdopi gyda'r rhan fwyaf o sgyrsiau bob dydd a'r rhan fwyaf o sgyrsiau cyffredin sy'n berthnasol i'r rôl. Canolradd – rhuglder sylfaenol lle mae'r eirfa yn gyffredinol a does dim rhaid i'r iaith fod yn fanwl, a'r gallu I ddefnyddio amrywiaeth o eirfa berthnasol i'r rôl.	**Deilliannau** Uwch – mwy o hyder I weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig wrth siarad ac i ryw raddau, wrth ysgrifennu. Hyfedredd – mwy o hyder i weithio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys ysgrifennu i safon dda.	**Deilliannau** Cyrsiau Croeso – dealltwriaeth o ynganu ac ymadroddion sylfaenol. Gwella'ch Cymraeg – cyflwyniad i bwyntiau gramadegol defnyddiol.
Hyblygrwydd: rhywfaint Mae modd cwblhau'r modiwl ar-lein unrhyw bryd a thros sawl sesiwn. Mae'r cyrsiau eraill yn cynnwys sesiynau Teams.	**Hyblygrwydd: rhywfaint** Sesiynau dwy awr wythnosol dros 30 wythnos. Dwy awr arall o ddysgu annibynnol. Dylai ddysgwyr geisio mynd I bob sesiwn rithwir ond bydd deunyddiau ar gael i adolygu ac mae modd cwblhau dysgu annibynnol ar unrhyw adeg.	**Hyblygrwydd: rhywfaint/llawer** 12 sesiwn dwy awr. Mae sesiynau'n digwydd yn wythnosol gyda chyfnod astudio annibynnol o fis ar ôl y pedwaredd, wythfed, a deuddegfed sesiwn, I gwblhau aseiniadau. Dylai dysgwyr neilltuo dwy awr ar gyfer astudio annibynnol bob wythnos dros gyfnod y cwrs.	**Hyblygrwydd: llawer** Mae llawer o gyrsiau Cymraeg Gwaith yn gyfan gwbl ar-lein neu mae'r rhan fwyaf ar-lein, a gall dysgwyr eu cwblhau ar eu cyflymder eu hunain.

Ymrwymiad: isel/rhywfaint Mae cyrsiau yn para rhwng pedair awr a dau ddiwrnod.	**Ymrwymiad: uchel** Mae cyrsiau yn ymestyn dros 30 wythnos felly bydd rhaid i ddysgwyr neilltuo amser yn eu dyddiaduron ar hyd cyfnod y cwrs ar gyfer sesiynau a thasgau annibynnol.	**Ymrwymiad: rhywfaint/uchel** Mae cyrsiau'n cynnwys 12 sesiwn, tasgau dysgu annibynnol, ac aseiniadau.	**Ymrwymiad: isel/rhywfaint** Mae'r cyrsiau sydd wedi'u rhestru yma'n cynnwys 10 awr o astudio ar-lein a gall dysgwyr gwblhau'r rhain ar eu cyflymder eu hunain. Mae cyrsiau Cymraeg Gwaith eraill sy'n cael eu hysbysebu o dro i dro yn fwy o ymrwymiad.

Cwestiynau?

Mae Academi Cyngor Caerdydd yn ymrwymo'n llawn i sicrhau bod modd i bobl aelod o staff ddysgu Cymraeg. Gwnewch ymholiadau i AcademiCaerdydd@caerdydd.gov.uk.